

Cyfansoddi Cerdd Dant

340 – Cyfansoddi Gosodiad dan 25 oed

Beirniad – Mair Carrington Roberts

Derbyniwyd tri gosodiad a rheiny'n unawdau yn Rhestr Testunau'r Eisteddfod hon. Roedd canllawiau gosod Allwedd y Tannau yn nodi'r corfannu ac yn batrwm i'r cystadleuwyr.

Y dasg i'r gosodwr oedd cyfansoddi cyfalawon cerddorol mewn gwrthbwynt disgybledig, sy'n lliwio'r geiriau ac yn dehongli'r farddoniaeth. Rhaid canmol y tri chystadleuydd am lunio cyfalawon naturiol, ystyth a chanadwy. Weithiau, roedd y cwmpawd lleisiol braidd yn gyfyng gan beri i'r cyfalawon golli cyfeiriad a methu uchafbwyntiau. Nodais hyn, a rhai gwallau gramadeg cerddorol, ar y sgrïpt.

Mae'n bwysig cynllunio pob gosodiad yn ofalus gan gyfeirio'n gyson at y geiriau. Collwyd cyfle i gyferbynnu yn 'Gwynt yr Hwyr' er mwyn cyfleu'r hiraeth a'r golled. Mae angen mwy o fflachiadau lliwgar yn 'Jîns' i gynnal yr hiwmor a'r hwyl yn llawn. Yr oedd y gosodiad o 'Nid Llwynog oedd yr Haul' yn greffus fel cyfanwaith gyda naws hyfryd i'r gân.

Dyfarnwyd ar sail y cynllun cerddorol ac addaswydd a dychymyg creadigol y gosodiad.

Diolch i'r tri ohonoch am eich cyflwyniad graenus a hoffwn eich annog yn frwd i barhau i gynnal a chadw'r traddodiad unigryw yma. Gwn y cewch foddhad mawr.

1. Y Glomen (Nid Llwynog oedd yr haul) 340/2
2. Tant (Jîns) 340/3
3. Ar y Sbot (Gwynt yr hwyr) 340/1